JUDICIAL
APPOINTMENTS
COMMISSION

. . . . . .

Pecyn Gwybodaeth:

00453: Cofiadur (Sifil) 2009

. . . . . .

CYNNWYS

CYFLWYNIAD 1
A YDYCH YN GYMWYS? 2
ADDASIADAU RHESYMOL.....5
DISGRIFIAD SWYDD 5
CYSYLLTIADAU A RHAGOR O WYBODAETH.....100
CANOLWYR A ENWEBIR GAN Y COMISIWN 122
COMISIYNWYR Y COMISIWN PENODIADAU BARNWROL.....133

CYFLWYNIAD

Mae'r Comisiwn Penodiadau Barnwrol (CPB) yn awr yn gwahodd ceisiadau am y swydd Cofiadur i eistedd yn yr awdurdodaeth Sifil. Mae 40 swydd wag ar gael. Bydd gofyn i ymgeiswyr a gaiff eu penodi yn dilyn yr ymarfer dethol hwn eistedd mewn llysoedd sirol yn ôl yr anghenion busnes. Mae'n bosibl y bydd ymgeiswyr llwyddiannus yn cael eu hystyried ar gyfer awdurdodaeth dan adran 9(1) Deddf y Goruchel Lys 1981 i eistedd fel Dirprwy Farnwyr yr Uchel Lys yn yr Adran Siawnsri ac Adran Mainc y Frenhines. Bydd ymgeiswyr llwyddiannus a fydd yn mynd ymlaen i gael awdurdod yn eistedd yn y Llysoedd Barn Brenhinol neu'r llysoedd sirol (awdurdodaeth sifil arbenigol) yn ôl yr anghenion busnes

Cyn cael eu hawdurdodi i eistedd yn awdurdodaethau arbenigol yr Uchel Lys a'r llys sirol, bydd gofyn i ymgeiswyr llwyddiannus gwblhau rhaglen gynefino sifil a drefnir gan y Bwrdd Astudiaethau Barnwrol fel a gytunwyd gan Lywydd Adran Mainc y Frenhines a'r Canghellor.

Y dyddiad olaf ar gyfer derbyn ceisiadau yw 29 Hydref 2009.

Mae'r pecyn hwn yn cynnwys y wybodaeth y bydd ei hangen arnoch am y penodiadau. Mae'n cynnwys y meini prawf cymhwysedd a'r disgrifiad swydd. Mae hefyd yn disgrifio'r broses ddethol y bydd y Comisiwn yn ei dilyn, gan nodi'r dyddiadau perthnasol a chynnig cyngor ynglŷn â sut mae paratoi ar gyfer gwahanol gamau'r broses hon.

Cyn y gellir ystyried eich penodi, mae gofynion cymhwysedd y mae'n rhaid ichi eu cyflawni. Mae'n rhaid i'r CPB hefyd asesu eich cymeriad. Cyn ichi ymgeisio, dylech ddarllen y gofynion hyn a'r canllawiau a ddefnyddir gan y Comisiwn i asesu cymeriad. Gellir gweld y rhain ar ein gwefan (www.judicialappointments.gov.uk) ynghyd â braslun o delerau ac amodau'r gwasanaeth a'r telerau penodi ar gyfer y swydd hon. Bydd gofyn ichi hefyd ddangos y rhinweddau a'r galluoedd sy'n ofynnol ar gyfer y swydd hon.

Corff annibynnol yw'r Comisiwn a'r corff hwn sy'n dethol ymgeiswyr ar gyfer swyddi barnwrol. Bydd yn gwneud hynny ar sail teilyngdod, drwy gystadleuaeth agored a theg, drwy ddethol o blith y dewis ehangaf o ymgeiswyr cymwys.

A YDYCH YN GYMWYS?

I fod yn gymwys i'ch penodi'n Gofiadur, rhaid i chi fodloni'r gofynion canlynol:

Gofyniad statudol

Dan adran 21(2) Deddf Llysoedd 1971, fel y'i diwygiwyd gan baragraff 9, Atodlen 10 Deddf Tribiwnlysoedd, Llysoedd a Gorfodaeth 2007, ni cheir penodi neb yn Gofiadur onid yw'n bodloni amod cymhwysedd penodiad barnwrol ar sail 7 mlynedd.

Mae Deddf Tribiwnlysoedd, Llysoedd a Gorfodaeth 2007 wedi cyflwyno'r 'amod cymhwysedd penodiad barnwrol'. Lle mae hyn yn berthnasol, nid yw cymhwyso ar gyfer swydd farnwrol yn seiliedig bellach ar feddu ar hawl i ymddangos am gyfnod penodol. Bydd yn rhaid i chi ddangos:

- eich bod yn meddu ar gymhwyster cyfreithiol perthnasol;
- am y cyfnod gofynnol; a
- thra bod gennych y cymhwyster hwnnw eich bod wedi cael profiad cyfreithiol.

Mae ystyr 'ennill profiad ym maes y gyfraith' wedi'i bennu yn adrannau 52(2) i (5) Deddf Tribiwnlysoedd, Llysoedd a Gorfodaeth 2007, ac mae'n ymwneud â chyfnod mewn gweithgarwch sy'n gysylltiedig â'r gyfraith.

Er mwyn cyflawni'r cymwysterau statudol ar gyfer penodi fel Cofiadur, rhaid i dwrnai (neu ddeilydd swydd farnwrol gyflogedig a fu'n dwrnai gynt) fod ar y Rhôl.

Cymhwyster Perthnasol

Mae gennych gymhwyster perthnasol os ydych yn dwrnai neu'n fargyfreithiwr.

Fe'ch ystyrir yn gymwys fel twrnai pan fydd eich enw wedi'i osod am y tro cyntaf ar y rhôl a gedwir dan adran 6 Deddf Twrneiod 1974. Fe'ch ystyrir yn gymwys fel bargyfreithiwr:

a) pan fyddwch wedi cwblhau'ch cyfnod disgybledd yng nghyswllt dod yn fargyfreithiwr, neu

b) os nad oes raid i chi gwblhau cyfnod disgybledd yng nghyswllt dod yn fargyfreithiwr, pan gewch eich galw i Far Cymru a Lloegr.

Pan fyddwch yn ymgeisio am benodiad barnwrol o dan (b), bydd angen i chi roi manylion pam nad oes raid i chi gwblhau cyfnod disgybledd ar y Ffurflen Gais.

Profiad Cyfreithiol

Er mwyn bod yn gymwys ar gyfer penodiad barnwrol, rhaid ichi nid yn unig fod yn berchen ar y cymhwyster perthnasol, ond rhaid ichi hefyd fod wedi bod yn ymwneud â 'gweithgarwch cysylltiedig â'r gyfraith' a chithau'n dal y cymhwyster hwnnw.

Ystyr Gweithgarwch Cysylltiedig â'r Gyfraith

Ystyrir bod gweithgarwch yn weithgarwch cysylltiedig â'r gyfraith, ni waeth a yw'r gweithgarwch hwnnw'n cael ei wneud am dâl neu beidio ac ni waeth a yw'r gweithgarwch yn weithgarwch amser llawn ynteu'n weithgarwch rhan amser.

Mae pob un o'r canlynol yn weithgarwch perthnasol sy'n gysylltiedig â'r gyfraith;

a) Cyflawni swyddogaethau barnwrol unrhyw lys neu dribiwnlys

b) Gweithredu fel cyflafareddwr

c) Ymarfer neu fod yn gyflogedig fel cyfreithiwr

d) Cynghori (boed hynny yng nghwrs ymarfer neu gyflogaeth fel cyfreithiwr neu beidio) ynglŷn â rhoi'r gyfraith ar waith

e) Cynorthwyo (boed hynny yng nghwrs ymarfer o'r fath neu beidio) pobl sy'n rhan o achos er mwyn datrys materion sy'n codi o dan y gyfraith

f) Gweithredu (boed hynny yng nghwrs ymarfer o'r fath neu beidio) fel cyfryngwr yng nghyswllt ymdrechion i ddatrys materion sy'n destun achos neu a allai fod yn destun achos oni chânt eu datrys

g) Drafftio (boed hynny yng nghwrs ymarfer o'r fath neu beidio) dogfennau y bwriedir iddynt effeithio ar hawliau neu ar ddyletswyddau unigolyn

h) Addysgu neu wneud gwaith ymchwil yn y gyfraith

i) Unrhyw weithgaredd sydd, ym marn y sawl sy'n gwneud y penderfyniad perthnasol, o natur gyffredinol tebyg i weithgaredd ym mharagraffau (a) i (h)

Mae'r Weinyddiaeth Cyfiawnder wedi darparu'r arweiniad canlynol:

Bwriedir i gategori b) gwmpasu achosion o gyflafareddu lle caiff anghydfodau cyfreithiol eu datrys ar sail gymharol ffurfiol a strwythuredig. Er enghraifft, byddai'n cwmpasu achosion o gyflafareddu sy'n cael eu rheoli gan Ddeddf Cyflafareddu 1996, ac yn cael eu cyflawni gan unigolyn sydd wedi'i achredu gan gorff megis CEDR (Y Ganolfan Datrys Anghydfodau'n Effeithiol).

Bwriedir i gategorïau d) - g) hefyd gynnwys gweithgareddau a gyflawnir ar sail weddol ffurfiol, strwythuredig, er enghraifft gwirfoddolwyr sy'n rhoi cyngor cyfreithiol mewn canolfan gyfraith, neu mewn canolfan cyngor ar bopeth. Serch hynny, ni fwriedir iddo gynnwys (dyweder) rhywun sy'n rhoi cyngor anffurfiol i gyfeillion a chymdogion.

Bwriedir i gategori (e) gynnwys cymorth cyfreithiol, yn hytrach na mathau eraill o gymorth.

Bwriedir i gategori (g) gynnwys drafftio sy'n gofyn am grebwyll a medrusrwydd cyfreithiol, megis drafftio contractau a lesiau. Nid yw'n fwriad cynnwys drafftio a allai effeithio ar hawliau neu ddyletswydd, ond sydd yn eu hanfod yn dasgau gweinyddol, e.e. llenwi gorchmynion gorfodi, neu hysbysiadau ynglŷn â chosbau.

Pwrpas (i) yw cynnwys rhai mathau o weithgarwch cysylltiedig â'r gyfraith na fyddent efallai'n gweddu'n union o dan (a) - (h).

Bydd eich ymwneud â gweithgareddau cysylltiedig â'r gyfraith am gyfnod yn cael ei ddiystyru os yw'r ymwneud hwnnw'n 'ddibwys o ran faint o amser a dreuliwyd ar y gweithgareddau hynny'.

Oed

Nid oes dim terfyn oed uchaf nac isaf ar gyfer ymgeiswyr am y swydd hon ar wahân i'r oedran ymddeol statudol o 70 i bob barnwr. Fodd bynnag, bydd yr oedran ieuengaf ar gyfer penodiadau yn dibynnu yn rhannol ar fod yn rhaid i unigolion fod wedi cymhwyso fel bargyfreithwyr neu dwrneiod am y nifer benodol o flynyddoedd sy'n ofynnol drwy statud. Rhaid i'r oedran pryd y penodir rhywun, ganiatáu cyfnod rhesymol o wasanaeth, fel arfer oddeutu tair blynedd.

Cenedligrwydd

Rhaid ichi lenwi datganiad cenedligrwydd ar y Ffurflen Gais. I fod yn gymwys ar gyfer y swydd hon, rhaid i chi fod yn ddinesydd:

- y Deyrnas Unedig; neu
- un o wledydd eraill y Gymanwlad; neu
- Weriniaeth Iwerddon.

Cymeriad

Mae gofyn i'r Comisiwn, yn ôl statud, benodi pobl o gymeriad da'n unig. Er mwyn gwneud yr asesiadau hyn, rydym wedi datblygu Canllawiau ar Gymeriad Da sydd ar gael ar ein gwefan yn www.judicialappointments.gov.uk. Gallwch hefyd ysgrifennu atom a gofyn am gopi (mae ein manylion cysylltu yn adran 'Cysylltiadau a Rhagor o Wybodaeth' y Pecyn Gwybodaeth hwn).

Mae'r Canllawiau Cymeriad Da yn rhoi rhywfaint o syniad ichi a allai unrhyw beth yn eich ymddygiad yn y gorffennol neu yn eich amgylchiadau ar hyn o bryd effeithio ar eich cais am benodiad barnwrol. Dylech eu darllen yn ofalus cyn llenwi'r Ffurflen gais.

Cwestiynau ynglŷn â chymeriad da a datganiadau

Mae gofyn ichi ateb nifer o gwestiynau ynglŷn â chymeriad da ar y Ffurflen Gais a rhaid ichi roi datganiadau priodol yn ôl y gofyn.

Nid yw'r sawl sy'n ymgeisio am swydd farnwrol wedi'i warchod gan adran 4(2) a 4(3) Deddf Ailsefydlu Troseddwyr 1974. Felly, dylid rhoi datganiad ysgrifenedig ynglŷn ag unrhyw euogfarnau a fyddai fel rheol yn cael eu hystyried yn euogfarnau sydd wedi disbyddu o dan y Ddeddf honno (Gorchymyn Deddf Ailsefydlu Troseddwyr 1974 (Eithriadau) 1975). Rhaid i chi roi manylion pob trosedd yr ydych wedi eich cael yn euog ohono neu wedi cael rhybuddiad mewn cysylltiad ag ef. Dylai'r manylion gynnwys natur pob trosedd, dyddiad yr euogfarn neu'r rhybuddiad a'r gosb a roddwyd.

Lle bo achos o unrhyw fath yn yr arfaeth, dylech roi manylion y trosedd yr ydych wedi'ch cyhuddo ohono neu'r broses ddisgyblu yr ydych yn rhan ohoni ac, os yw hynny'n hysbys, dyddiad gwrando'r achos neu'r cam gweithredu. Mae'n bwysig ichi roi gwybod inni am ganlyniad unrhyw achos a gwblheir yn ystod cyfnod ystyried eich cais. Yn yr un modd, os cewch eich cyhuddo o unrhyw drosedd neu os dygir unrhyw achos yn eich erbyn ar ôl ichi gyflwyno'ch cais, dylech roi gwybod inni ar unwaith (gweler adran 'Cysylltiadau a Rhagor o Wybodaeth' y Pecyn Gwybodaeth hwn).

Ym mhob achos, rhowch gynifer o fanylion ag y gallwch gan ddweud a oes unrhyw ffactorau lliniaru y credwch y dylai'r Comisiwn eu hystyried wrth asesu'ch cymeriad da.

Archwilio cymeriad da

Bydd y Comisiwn hefyd yn cynnal archwiliad ar bob ymgeisydd y mae'n bwriadu ei argymell i'w benodi. Darperir rhagor o wybodaeth am yr archwiliadau hyn ar wahân ar gyfer ymgeiswyr perthnasol.

Os byddwch wedi methu â datgan unrhyw faterion a ddaw i'r fei yn sgil yr archwiliadau hyn, gallai hynny amharu ar ganlyniad eich cais.

ADDASIADAU RHESYMOL

Mae'r Comisiwn wedi ymrwymo i ystyried gwneud unrhyw addasiadau rhesymol y mae eu hangen i sicrhau eich bod yn gallu cymryd rhan yn deg yn y broses ddethol. Mae'r Ffurflen Gais yn gofyn ichi nodi unrhyw drefniadau ac addasiadau y gall fod eu hangen arnoch. Ystyrir ceisiadau fesul achos ac ni ddefnyddir y wybodaeth a roddir wrth wneud penderfyniadau ynglŷn â dethol.

Os argymhellir eich penodi, ystyrir gwneud addasiadau rhesymol os oes gennych anabledd yn unol ag ystyr y Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd, fel y'u gwneir ar gyfer barnwyr sy'n gwasanaethu. Bydd unrhyw addasiadau rhesymol i'ch galluogi i dderbyn y swydd yn cael eu trafod ar wahân gyda chi gan Wasanaeth Llysoedd Ei Mawrhydi ar ôl i'r Comisiwn Penodiadau Barnwrol wneud ei argymhelliad.

DISGRIFIAD SWYDD

Mae'r Weinyddiaeth Gyfiawnder wedi darparu'r wybodaeth ganlynol:

PWRPAS Y SWYDD

1. Diben swydd farnwrol yw gweinyddu cyfiawnder yn unol â chyfreithiau Cymru a Lloegr heb ofn na ffafr, hoffter na drwgdeimlad.

AWDURDODAETH AC EISTEDDIADAU

2. Yn ôl adran 21 Deddf Llysoedd 1971, fel y'i diwygiwyd, gall yr Arglwydd Ganghellor argymell i'r Frenhines bod yr unigolyn sydd â'r cymwysterau statudol ar gyfer penodi yn cael ei benodi'n Gofiadur, i weithredu fel barnwr rhan-amser yn Llys y Goron neu'r llysoedd ynadon. (Awdurdodir rhai Cofiaduron i arfer awdurdodaethau sifil arbenigol, e.e. yn y Llys Technoleg ac Adeiladwaith a'r Llys Patentau.) Ac eithrio fel y nodir yn wahanol, yn gyffredinol mae awdurdodaeth statudol Cofiadur yn cyfateb yn union yn ffurfiol ag awdurdodaeth Barnwr Cylchdaith. Ceir nodiadau am awdurdodaeth Barnwr Cylchdaith ar wefan y Comisiwn Penodiadau Barnwrol yn www.judicialappointments.gov.uk. Bydd angen i chi fynd i'r dudalen ar yr ymarfer dethol Cofiadur (Sifil) drwy glicio'r ddolen 'Selection Exercises – Open for applications'.

3. Bydd Cofiaduron sy'n eistedd yn yr awdurdodaeth Sifil a benodir drwy'r ymarfer hwn yn cael eu hawdurdodi i eistedd yn y llys sirol. Fodd bynnag, bydd rhaid i ymgeiswyr ddangos bod ganddynt brofiad o drafod materion ar lefel yr Uchel Lys, yn yr Adran Siawnsri ac Adran Mainc y Frenhines. Mae'n bosibl y bydd y sawl a benodir fel Cofiaduron yn cael eu hystyried ar gyfer awdurdodaeth i eistedd fel Barnwyr yr Uchel Lys, yn unol â darpariaethau adran 9(1) Deddf y Goruchel Lys 1981. Fodd bynnag, nid yw'n anochel y rhoddir awdurdodaeth i eistedd fel Dirprwy Farnwr yr Uchel Lys, oherwydd penderfyniad y Pennaeth Adran perthnasol fydd hynny.

4. Mae'n bosibl y bydd gofyn i Gofiaduron sy'n eistedd yn yr awdurdodaeth Sifil ddirprwyo ar ran Barnwyr Cylchdaith sifil arbenigol yng Nghofrestrfeydd Dosbarth yr Uchel Lys ac mewn canolfannau arbenigol eraill, yn enwedig yn yr Adran Siawnsri, y Llys Mercantilaidd a'r Llys Technoleg ac Adeiladwaith.

5. Bydd trefniadau eistedd, a gaiff eu pennu gan Gyfarwyddwr Grŵp yr Uchel Lys mewn ymgynghoriad â Llywydd Adran Mainc y Frenhines a'r Canghellor, yn amrywio o dro i dro yn dibynnu ar anghenion y busnes. Nid oes gofyniad sylfaenol i Gofiaduron Sifil o ran nifer yr eisteddiadau, er na fydd gofyn iddynt eistedd mwy na 30 diwrnod fel arfer.

PRIF WEITHGAREDDAU

Dyma brif ddyletswyddau Cofiaduron sy'n eistedd yn yr awdurdodaeth Sifil:-

a. Paratoi ar gyfer treial a rheoli achos

- Darllen a dirnad papurau'r achos cyn i wrandawiad, neu'r treial, ddechrau.
- Hyrwyddo amcan pennaf y Rheolau Trefniadaeth Sifil drwy reoli achosion yn ddiwyd nes y'u cwblheir. Mae diwyd-reoli achosion yn cynnwys:
    - annog y partïon i gydweithredu â'i gilydd wrth gynnal yr achos;
    - nodi'r materion i'w hystyried yn gynnar yn y broses;
    - penderfynu'n ddiymdroi pa faterion y mae angen ymchwilio'n llawn iddynt a'u hanfon i dreial a delio â'r gweddill yn ddiannod;
    - penderfynu ar drefn datrys y materion;
    - annog y partïon i ddefnyddio trefn amgen i ddatrys anghydfod os yw'r llys o'r farn bod hynny'n briodol a hwyluso'r ffordd i ddefnyddio trefn o'r fath;
    - helpu'r partïon i setlo'r achos yn ei gyfanrwydd neu'n rhannol;
    - pennu amserlenni neu reoli hynt yr achos fel arall;
    - ystyried a fyddai manteision tebygol cymryd cam neilltuol yn cyfiawnhau'r gost o'i gymryd;
    - delio â chynifer â phosibl o agweddau'r achos ar yr un achlysur;
    - delio â'r achos heb fod angen i'r partïon ddod i'r llys;
    - defnyddio technoleg i'r eithaf; a
    - rhoi cyfarwyddiadau i sicrhau bod treial achos yn mynd rhagddo'n gyflym ac yn effeithlon.

b. Llywyddu dros achosion llys

- Rheoli (yn unol â'r gyfraith a'r ymarfer perthnasol) y modd y cynhelir achosion.
- sicrhau bod y partïon yn cael yr un chwarae teg, a sicrhau, pa un a ydynt wedi'u cynrychioli ai peidio, y galluogir nhw i gyflwyno'u hachosion, ac iddynt gael eu hystyried, cyn llawned a theced â phosibl;
- Ym mhob achos, hybu'r ffordd gyflymaf o ymdrin â'r busnes sy'n gydnaws â buddiannau cyfiawnder;
- delio â'r achos mewn ffyrdd sy'n gymesur â:
    - swm yr arian sydd dan sylw;
    - pwysigrwydd yr achos;
    - cymhlethdod y materion; a
    - sefyllfa ariannol bob parti.
- Neilltuo cyfran briodol o adnoddau'r llys i'r achos, wrth ystyried yr angen i neilltuo adnoddau i achosion eraill a delio â'r achos mewn ffyrdd sy'n gymesur â:
    - swm yr arian sydd dan sylw;
    - pwysigrwydd yr achos;
    - cymhlethdod y materion; a
    - sefyllfa ariannol bob parti.
- Cynnal awdurdod ac urddas y llys.
- Penderfynu ar faterion sy'n ymwneud â'r gyfraith a threfniadaeth a allai godi yn ystod achos.

c. Dyfarnu

- Penderfynu ar achosion drwy ganfod y ffeithiau, cymhwyso'r gyfraith berthnasol iddynt a rhoi dyfarniad sydd wedi'i resymu.
- Penderfynu ar geisiadau a wrthwynebir a materion eraill drwy ystyried y papurau a'r dystiolaeth a gyflwynir mewn unrhyw wrandawiad a gwneud canfyddiadau ffeithiol, cymhwyso'r gyfraith berthnasol a, lle bo hynny'n briodol, rhoi dyfarniad sydd wedi'i resymu.
- Asesu a dyfarnu iawndal a chostau, penderfynu ar y swm sydd i'w dalu a sut y mae i'w dalu a gwneud gorchmynion meddiannu.
- Goruchwylio geiriad dyfarniadau a gorchmynion y Llys.

CYFRIFOLDEBAU ERAILL

6. Mae angen i Gofiaduron fod yn ymwybodol o'r datblygiadau cyfreithiol diweddaraf. Mae hyn yn golygu llawer iawn o ddarllen nad yw'n ymwneud yn uniongyrchol â'r achosion sydd ar brawf ganddynt.

7. Cyn cael eu hawdurdodi i eistedd yn awdurdodaethau arbenigol yr Uchel Lys a'r llys sirol, bydd gofyn i ymgeiswyr llwyddiannus gwblhau rhaglen gynefino sifil a drefnir gan y Bwrdd Astudiaethau Barnwrol fel a gytunwyd gan Lywydd Adran Mainc y Frenhines a'r Canghellor.

AWDURDODAETH FEL DIRPRWY FARNWR YR UCHEL LYS

Mae gan Gofiaduron sy'n eistedd yn yr Uchel Lys dan adran 9(1) Deddf y Goruchel Lys 1981 hawl i arfer yr un awdurdodaeth â Barnwr yr Uchel Lys ac eithrio eistedd yn y Llys Apêl. Yn ymarferol, byddant yn gwrando ar achosion sifil yn y lle cyntaf.

RHAGOR O WYBODAETH

Mae nodiadau am awdurdodaeth Barnwyr Cylchdaith; ac am brif ddyletswyddau barnwyr sy'n eistedd yn yr Adran Siawnsri ac Adran Mainc y Frenhines; ac am awdurdodaeth y ddwy Adran, ar gael ar wefan y Comisiwn Penodiadau Barnwrol yn www.judicialappointments.gov.uk. Ceir Telerau ac Amodau'r swydd hefyd ar wefan y Comisiwn. I weld y ddwy ddogfen, bydd angen i chi fynd i'r dudalen ar yr ymarfer dethol Cofiadur (Sifil) drwy glicio'r ddolen 'Selection Exercises – Open for applications'.

Y BROSES DDETHOL

Ffurflen gais

Mae manylion y rhinweddau a'r galluoedd y cewch eich asesu ar eu cyfer i'w gweld ar y Ffurflen Gais. Gallwch sôn am holl ystod eich gwaith a'ch profiad personol er mwyn dangos bod gennych y rhinweddau a'r galluoedd hyn, gan gynnwys, er enghraifft, gwaith gwirfoddol neu unrhyw gyhoeddiad yr ydych wedi cyfrannu ato. Byddwch yn benodol wrth roi gwybodaeth.

Amserlen

Dyddiad olaf ar gyfer derbyn ceisiadau	29 Hydref 2009
Dyddiad posib ar gyfer y prawf cymhwyso	8 Rhagfyr 2009
Dyddiadau posib ar gyfer y diwrnodau dethol	2 – 17 Mawrth 2010

Llunio'r Rhestr Fer

Y cam nesaf yn y broses yw prawf cymhwyso. Y prawf cymhwyso fydd yr unig ddull a ddefnyddir i lunio'r rhestr fer ar gyfer diwrnodau dethol yr ymarfer dethol hwn. Gwahoddir pob ymgeisydd i sefyll prawf ysgrifenedig. Y dyddiad ar gyfer hyn ar hyn o bryd yw 8 Rhagfyr 2009. Adolygir cymhwysedd ar gyfer y swydd mewn proses ar wahân. Os yw'r Comisiwn yn dod i'r casgliad bod materion yn codi sy'n golygu na all ymgeisydd fwrw ymlaen, byddwn yn rhoi gwybod i'r ymgeiswyr hynny cyn iddynt sefyll y prawf.

Bydd y prawf yn seiliedig ar ddwy sefyllfa. Bydd y sefyllfa gyntaf yn gofyn i ymgeiswyr ateb cwestiynau sy'n ymwneud â statud ddamcaniaethol. Bydd yr ail sefyllfa'n ymwneud â statud go-iawn. Caiff yr atebion eu hasesu yn erbyn y rhinweddau Gallu Meddyliol Eithriadol ac Awdurdod a Sgiliau Cyfathrebu. Hynny yw, ni fydd yr holl rinweddau a galluoedd a nodir ar y Ffurflen Gais yn cael eu hasesu yn y prawf cymhwyso – bydd rhaid disgwyl tan y diwrnod dethol i asesu rhai ohonynt, os ydych ar y rhestr fer. Lluniwyd y prawf i alluogi ymgeiswyr i ddangos bod ganddynt resymeg a gwybodaeth gyfreithiol sylfaenol, yn ogystal â sgiliau trin achosion.

Gwelir enghreifftiau o brofion yn yr awdurdodaeth ddamcaniaethol a ddefnyddiwyd ar gyfer ymarferion dethol Cofiaduron blaenorol ar wefan y Comisiwn Penodiadau Barnwrol: www.judicialappointments.gov.uk. Ewch i dudalennau'r ymarferion dethol Cofiaduron yng Nghanoldir Lloegr a De Ddwyrain Lloegr drwy glicio'r ddolen 'Selection Exercises – Past Selection Exercises'.

Nid yw'n debygol y bydd y statud ddamcaniaethol a ddefnyddir yn y prawf ar gyfer yr ymarfer hwn yr un peth â'r un a ddefnyddiwyd mewn ymarferion dethol blaenorol.

Canlyniad y prawf cymhwyso

Detholir ymgeiswyr ar gyfer y cam nesaf ar sail canlyniadau'r prawf cymhwyso'n unig. Bydd pob rhinwedd a gallu a restrir ar y Ffurflen Gais yn cael eu hasesu yn ystod y diwrnod dethol. Anfonir rhagor o fanylion gyda'ch gwahoddiad i fod yn bresennol. Mae'n ddrwg gennym na allwn roi esboniad ysgrifenedig i ymgeiswyr na chânt eu rhoi ar y rhestr fer.

Geirdaon

Mae'n bosibl y byddwn yn gofyn i bobl sydd mewn sefyllfa dda i wybod dystio i ba raddau yr ydych yn cyflawni'r rhinweddau a'r galluoedd. Cysylltir â chanolwyr fel arfer cyn i'r diwrnod dethol ddigwydd ac fe'u hanogir i ddefnyddio deunydd gwerthuso os yw ar gael. Fel arfer bydd y deunydd a ddarperir gan y canolwyr yn cyfrannu at y penderfyniadau a wneir ar y diwrnod dethol a'r penderfyniadau terfynol o ran dethol gan Gomisiynwyr.

Enwebu canolwyr

Fe'ch gwahoddir i enwebu hyd at dri chanolwr sy'n eich adnabod yn dda, naill ai'n bersonol neu'n broffesiynol. **Rydym yn argymell yn gryf ichi sicrhau nad yw hyn yn peri gwrthdaro rhwng buddiannau i'ch canolwr.**

Enwebeion y Comisiwn

Mae'n bosibl hefyd y bydd y Comisiwn yn gofyn am eirdaon gan y rheini a enwir yn yr adran 'canolwyr a enwebir gan y Comisiwn' yn y pecyn hwn.

Rhowch enw, teitl, swydd a chyfeiriad eich canolwyr barnwrol a phroffesiynol. Cewch ddweud wrthym hefyd os nad ydych am inni gysylltu â'ch canolwr proffesiynol perthnasol yn awr, ond rhaid ichi roi rhesymau dros hynny. Os nad ydych yn dal swydd farnwrol ar hyn o bryd ac nad ydych wedi enwi'ch canolwr proffesiynol perthnasol, rhaid ichi awgrymu canolwr arall sy'n gyfarwydd â'ch gwaith.

Diwrnod dethol

Os cewch eich rhoi ar y rhestr fer, byddwch yn cael eich gwahodd i ddiwrnod dethol. Bydd y diwrnod dethol ar gyfer yr ymarfer hwn yn cynnwys cyfweliad gan banel a chwarae rôl. Anfonir rhagor o fanylion gydag unrhyw wahoddiad i fod yn bresennol. Darperir asesiadau cyffredinol y panel i'r Comisiynwyr pan fyddant yn gwneud eu penderfyniadau o ran dethol.

Ymgynghoriad statudol

Fel sy'n ofynnol o dan Ddeddf Diwygio Cyfansoddiadol 2005, bydd asesiadau cyffredinol y panel o'r ymgeiswyr sy'n debygol o gael eu hystyried i gael eu dethol gan y Comisiwn yn cael eu hanfon at yr Arglwydd Brif Ustus ac at ail unigolyn sydd wedi dal y swydd neu sy'n meddu ar brofiad perthnasol arall. Yn yr ymarfer hwn, yr unigolion yr ymgynghorir â nhw fydd Canghellor yr Uchel Lys, Syr Andrew Morritt, a Llywydd Adran Mainc y Frenhines, Syr Anthony May.

Archwilio cymeriad

Mae'n ofynnol mai dim ond pobl a chanddynt gymeriad da sy'n cael eu dethol gan y Comisiwn. Bydd y Comisiwn yn cynnal archwiliadau ar yr holl ymgeiswyr sy'n debygol o gael eu hystyried i gael eu dethol, a bydd canlyniadau'r archwiliadau hyn, ynghyd â gwybodaeth y mae'r ymgeiswyr wedi'i chynnwys ar y Ffurflen Gais, yn cael eu hasesu.

Penderfyniadau o ran dethol

Gan eistedd fel pwyllgor, bydd y Comisiwn yn ystyried y wybodaeth a gasglwyd am yr ymgeiswyr, a fydd yn cynnwys adroddiad asesiad cyffredinol y panel ar y diwrnod dethol, er mwyn dethol yr ymgeiswyr hynny i'w hargymell i'r Arglwydd Ganghellor.

Adroddiad i'r Arglwydd Ganghellor

Bydd y Comisiwn yn cyflwyno'i ddewisiadau terfynol i'r Arglwydd Ganghellor. Gall yr Arglwydd Ganghellor dderbyn neu wrthod yr argymhelliad hwn, neu ofyn i'r Comisiwn ailystyried. Ni all yr Arglwydd Ganghellor ddewis ymgeisydd arall.

Gwrthdaro rhwng Buddiannau

Rhestrir y Comisiynwyr Penodiadau Barnwrol ar gefn y pecyn hwn. Ni ddylech enwebu Comisiynydd yn ganolwr. Dylech nodi hefyd ar y Ffurflen Gais os ydych yn perthyn i unrhyw un o'r Comisiynwyr mewn unrhyw ffordd, neu os ydynt yn eich adnabod, gan roi'r manylion.

Canlyniad yr ymarfer dethol

Cewch wybod trwy lythyr am hynt eich cais.

Os na fyddwch yn llwyddiannus yn y diwrnod dethol, cewch ofyn am esboniad ysgrifenedig. Dylech wneud y cais hwn o fewn chwe wythnos o ddyddiad y llythyr sy'n eich hysbysu nad ydych wedi bod yn llwyddiannus. Byddwn yn ceisio ymateb i'ch cais o fewn pedair wythnos gwaith.

Y Weithdrefn gwyno

Os nad ydych yn fodlon ar unrhyw agwedd ar y ffordd y cafodd eich cais ei drin, cyfeiriwch at y weithdrefn gwyno sydd wedi'i chyhoeddi gan y Comisiwn. Mae honno ar gael ar ein gwefan, neu ar bapur, dim ond ichi ofyn.

Rhagor o Wybodaeth

I gael rhagor o wybodaeth am broses ddethol a gofynion Deddf Diwygio Cyfansoddiadol 2005 ewch i'n gwefan yn www.judicialappointments.gov.uk

CYSYLLTIADAU A RHAGOR O WYBODAETH

Cael ffurflen gais

Mae'r holl wybodaeth am wneud cais am yr ymarfer dethol hwn ar gael yn www.judicialappointments.gov.uk.

Cysylltwch â thîm Gwasanaeth Ceisiadau Penodiadau Barnwrol y Comisiwn os dymunwch gael copi papur o'r Ffurflen Gais neu'r Pecyn Gwybodaeth, neu os oes gennych unrhyw gwestiwn ynglŷn â chyflwyno'ch cais.

Os oes angen y ffurflen a/neu'r pecyn arnoch mewn fformat gwahanol, er enghraifft mewn Braille, cysylltwch â thîm y Gwasanaeth Ceisiadau.

Cyflwyno'ch cais

Ar ôl llenwi eich Ffurflen Gais, dylech ei chyflwyno drwy ein proses ddiogel ar-lein drwy fynd i www.judicialappointments.gov.uk a chlicio ar 'Submit your Application'.

Cydnabod eich cais

Pan fyddwch yn cyflwyno eich cais drwy ein proses ymgeisio ddiogel ar-lein, byddwch yn cael cydnabyddiaeth yn syth. Gallwch hefyd ofyn am gael neges awtomatig drwy e-bost yn cadarnhau bod eich cais wedi ein cyrraedd. Os ydych yn dewis anfon eich cais drwy'r post, dylech gael llythyr yn cydnabod ein bod wedi cael eich cais cyn pen pum niwrnod gwaith o'i dderbyn.

Os na fyddwch wedi clywed dim, cysylltwch â thîm y Gwasanaeth Ceisiadau drwy ffonio neu anfon e-bost.

Manylion cysylltu

1. Gwasanaeth Ceisiadau Penodiadau Barnwrol (JAAS)

Cyfeirnod: **00453** (Nodwch y cyfeirnod hwn ar bob gohebiaeth)

Y Comisiwn Penodiadau Barnwrol / Judicial Appointments Commission
3rd Floor, Steel House
11 Tothill Street
Llundain
SW1H 9LH

DX 149822 WESTMINSTER 6

E-bost: jaas@jac.gsi.gov.uk
Ffôn: 0203 334 0123

2. Tîm yr Ymarfer Dethol:

Andrew Digby	0203 334 0341	Rheolwr yr Ymarfer Dethol
Gerri Clement	0203 334 0194	Dirprwy Reolwr yr Ymarfer Dethol
Ashlee Brett	0203 334 0515	Arweinydd Tîm yr Ymarfer Dethol

E-bost: CourtsTeamA@jac.gsi.gov.uk

Ffacs: 0203 334 0300

3. Cyfarwyddwraig:

Jane Andrews 0203 334 0508

CANOLWYR A ENWEBIR GAN Y COMISIWN

Mae'n bosibl y bydd y Comisiwn hefyd yn gofyn am eirda gan y categorïau hynny a restrir isod.

Canolwyr barnwrol

Os ydych yn dal swydd farnwrol nad yw ar y rhestr hon, cysylltwch â'r CPB er mwyn inni allu ystyried pwy ddylai gael ei enwebu fel eich canolwr barnwrol.

Os ydych yn eistedd ar Dribiwnlys, Llywydd y Tribiwnlys neu rywun cyfatebol.

Os ydych yn Feistr neu'n Gofrestrydd yn yr Uchel Lys neu'n Ddirprwy Feistr neu Gofrestrydd, yr Uwch Feistr neu Gofrestrydd perthnasol.

Os ydych yn Farnwr Costau neu'n Ddirprwy Farnwr Costau, yr Uwch Farnwr Costau.

Os ydych yn Farnwr Rhanbarth neu'n Ddirprwy Farnwr Rhanbarth, y Barnwr Sifil Dynodedig lleol.

Os ydych yn Farnwr Rhanbarth (Llysoedd Ynadon), neu'n Ddirprwy Farnwr Rhanbarth (Llysoedd Ynadon), yr Uwch Farnwr Rhanbarth (Llysoedd Ynadon).

Canolwr proffesiynol

Os ydych yn dwrnai, eich partner rheoli neu bartner ecwiti perthnasol.

Os mai bargyfreithiwr ydych, Pennaeth eich Siambrau.

Os ydych yn gyflogedig, eich rheolwr llinell neu rywun cyfatebol.

Os nad ydych yn gallu cynnig canolwr perthnasol, cysylltwch ag Andrew Digby, Rheolwr yr Ymarfer Dethol, ar 020 3334 0341

COMISIYNWYR Y COMISIWN PENODIADAU BARNWROL

Cadeirydd y Comisiwn

Y Farwnes Usha Prashar CBE

Aelodau

Mrs Ustus Jill Black DBE

Y Fonesig Lorna Boreland-Kelly DBE

Yr Athro Dame Hazel Genn DBE CF

Yr Arglwyddes Justice Heather Hallett DBE

Syr Geoffrey Inkin OBE

Ei Hanrhydedd y Barnwr Frances Kirkham

Mr Edward Nally

Ms Sara Nathan OBE

Y Barnwr Rhanbarth Charles Newman

Ei Anrhydedd y Barnwr David Pearl

Mr Francis Plowden

Ms Harriet Spicer

Mr Jonathan Sumption OBE CF

Yr Arglwydd Ustus Roger Toulson